YSGOL BRYNREFAIL

CYRSIAU HAMDDEN

Pob prynhawn dydd Llun, dros gyfnod o chwe wythnos y mae disgyblion blwyddyn 10 yn blasu cyrsiau hamdden pryd y maent yn cael cyfleu i flasu prynhawn cyfan ar y gweithgareddau canlynol :

Beicio, Hunan Amddiffyn, Dringo, Tenis, Cyfeiriannu a gweithio yn Ystafell Ffitrwydd.

Pe welsoch chi griw anferthol o feicwyr yn reidio o Benygroes hyd Gaernarfon, trwy ddefnyddio Lon Eifion, yn ôl pob tebyg ein criw ni oeddynt.

A pheidiwch, da chi, ac ymosod ar un o'r disgyblion hyn oherwydd, fel y gwelwch o'r lluniau maent wedi bod yn dysgu ac ymarfer eu sgiliau hunan amddiffyn o dan gyfarwyddyd y 'Sensei', sydd ei hun yn gyn disgybl ym Mrynrefail.

A beth am ddringo i'r adwy? Wel bydd disgyblion Brynrefail yn gallu dringo'n llawer iawn uwch na chi !

Diolch i holl staff yr Ysgol ac yr arbenigwyr allanol bu'n cymhorthi flwyddyn 10 a mawr gobeithio y byddent wedi darganfod diddordeb newydd bydd yn eu gogleisio am flynyddoedd hir.